TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

**Dyddiad cyhoeddi:** 5 Ionawr 2022

# Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rydyn ni'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n Polisi Rheoli Data a Gwybodaeth.

# Atebion i'ch Cwestiwn

1. **Faint o bobl sydd wedi cael eu gwahardd o wasanaethau trên Trafnidiaeth Cymru am beidio â gwisgo masg/gorchudd wyneb o fis Ionawr 2020 tan nawr?**

Yn gyntaf, rhaid i ni nodi nad oedd gorchuddion wyneb yn orfodol ar drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru a Lloegr ym mis Ionawr 2020. Daeth y cyfreithiau i rym ar y dyddiadau canlynol:

- Mehefin 2020 - Lloegr
- Gorffennaf 2020 - Cymru

Ers i'r gofynion gael eu gorfodi a hyd at 31 Rhagfyr 2021, mae 11,213 o bobl naill ai wedi cael eu tynnu oddi ar wasanaethau neu wedi'u hatal rhag teithio am dorri rheolau COVID. Mae'n bwysig nodi, ers i gyfyngiadau cyntaf COVID gael eu gorfodi gan y gyfraith ym mis Gorffennaf 2020, mae gofynion gwahanol wedi bod ar waith ar wahanol adegau, yn unol â gofynion y cyfyngiadau symud cenedlaethol, mesurau lleol a gwahanol lefelau o reolaeth ledled Cymru a Lloegr. Mae'r rhain wedi cynnwys gwahardd pob taith nad oedd yn hanfodol, gofynion cadw pellter cymdeithasol, gorchuddion wyneb gorfodol, a mesurau eraill sy'n ymwneud â COVID. Er bod y gorchymyn i wisgo gorchuddion wyneb yn dal yn ei le, nid yw'n bosibl darparu un ffigur ar gyfer nifer y bobl sydd wedi cael eu symud oddi ar wasanaethau trên TrC am beidio â gwisgo gorchudd wyneb o fis Ionawr 2020 tan nawr, oherwydd bydd y ffigurau ar gyfer yr amserlen hon yn adlewyrchu'r rheini sydd wedi cael eu symud oddi ar ein gwasanaethau am dorri amrywiaeth o ofynion cadw pellter cymdeithasol.

2. **Y broses ar gyfer delio â rhywun sydd ddim yn gwisgo masg? Er enghraifft, a ydych yn gofyn iddyn nhw wisgo un ac os ydyn nhw'n gwrthod, eu gwahardd, neu a ydych yn eu gwahardd ar unwaith?**

Mae nifer o ddulliau sy'n cael eu defnyddio i reoli peidio â chydymffurfio â gorchuddion wyneb:

- Mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn defnyddio dull pedwar cam wrth ddelio â phobl nad ydyn nhw'n gwisgo gorchuddion wyneb; Cyfathrebu, Egluro, Annog, Gorfodi. Mae hyn yn rhoi cyfle i bobl esbonio a ydyn nhw wedi'u heithrio am resymau meddygol, os nad oedden nhw'n ymwybodol o'r gofyniad, ac i'w hannog i gydymffurfio er eu diogelwch eu hunain yn ogystal â diogelwch pobl eraill, cyn cymryd camau gorfodi. Gall gorfodi arwain at wrthod neu atal teithio ar yr adeg honno neu gyhoeddi hysbysiadau cosb benodedig. Mae'r broses hon yn annibynnol ar Trafnidiaeth Cymru.

- Mae gan weithwyr Diogelwch Trafnidiaeth Cymru bwerau o dan is-ddeddfau Cwmnïau Trenau i naill ai atal pobl rhag teithio neu symud pobl oddi ar wasanaethau am beidio â chydymffurfio â rheolau gorchuddion wyneb. Maen nhw'n dilyn dull tebyg o atgoffa pobl o'r gofyniad, ac os nad yw pobl wedi'u heithrio, byddan nhw'n gallu eu hatal rhag teithio. Mae'n werth nodi hefyd, os yw pobl yn bwyta neu'n yfed, eu bod yn cael tynnu eu gorchuddion wyneb. Pan fydd pobl yn dweud eu bod wedi'u heithrio,

oni bai eu bod yn cynnig tystiolaeth yn wirfoddol, nid yw Trafnidiaeth Cymru yn gofyn am dystiolaeth feddygol i brofi'r eithriad.

- Mae ein timau Diogelwch yn rhan o gynllun trefniadau wythnosol, lle rhoddir adborth ar gydymffurfio â COVID, ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ati. Mae'r trefniadau ar gyfer adnoddau ar drenau a gorsafoedd yn y dyfodol yn cael eu hadolygu. Mae hefyd yn werth nodi pan fydd ein timau'n penderfynu symud unrhyw un oddi ar ein gwasanaethau neu eu hatal rhag teithio, rhaid i ni hefyd ystyried eu lles a gwneud penderfyniad ar sail eu hanghenion diogelu a pha mor agored i niwed ydyn nhw.

- Mae ein timau Diogelwch wedi cael hyfforddiant SIA i ddelio ag unrhyw ymatebion gwrthgymdeithasol posibl. Mae Goruchwylwyr a Staff yr Orsaf wedi'u hyfforddi i osgoi gwrthdaro. Rôl staff a goruchwylwyr yr orsaf yw cynnal cyhoeddiadau ar reolau gorchuddion wyneb a, phan fo'n briodol, atgoffa pobl o'r gofynion o ran gorchuddion wyneb. Os ydyn nhw'n gweld diffyg cydymffurfio, maen nhw'n rhoi gwybod i'n tîm rheoli, sy'n gwneud penderfyniad ar sail risg i naill ai gysylltu â'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, ein timau diogelwch hyblyg, neu gynnwys hyn yn y cynllun trefniadau wythnosol.

- Mae Trafnidiaeth Cymru wedi gweithio'n ddiflino i gyfathrebu â'n cwsmeriaid a'u haddysgu er mwyn creu amgylchedd diogel yn ystod y pandemig. Rydyn ni wedi creu ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol, wedi gweithio gyda sefydliadau newyddion a fforymau cyfryngau eraill, ac wedi datblygu ein rhaglen Teithio'n Saffach a'n hadnodd Gwiriwr Capasiti i ganiatáu i gwsmeriaid ddewis trên yn seiliedig ar gapasiti disgwyliedig. Rydyn ni wedi cyflwyno rhagor o sesiynau glanhau ar drenau ac mewn gorsafoedd yn dilyn cyngor gan y llywodraeth a'r diwydiant, mae gennym arwyddion clir, ac rydyn ni'n darparu hylif diheintio dwylo am ddim mewn prif orsafoedd. Yn fwy diweddar, rydyn ni wedi rhoi dros 3000 o orchuddion wyneb am ddim yn ystod digwyddiadau mawr, ac ar benwythnosau a gyda'r nos yn ystod y cyfnod cyn y Nadolig, gan gefnogi ein cwsmeriaid i deithio'n ddiogel a diogelu eu hunain, ein staff a chwsmeriaid eraill. Ni fyddem yn gwahardd pobl yn awtomatig am beidio â chydymffurfio. Mae'n well gennym atal teithio ar yr achlysur hwnnw gan fod hyn yn caniatáu i bobl wneud eu penderfyniad eu hunain ynghylch a ydyn nhw am deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus a chydymffurfio â'r rheolau.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi.

Yn gywir,

**Trafnidiaeth Cymru**

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

**Hawliau Apelio**

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu freedomofinformation@tfw.wales. Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y llythyr hwn. Os nad ydych chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: https:/ico.org.uk/make-a-complaint/

Yr adran berthnasol i'w dewis fydd "Gwybodaeth Swyddogol neu Gyhoeddus".